PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Polisi ar Ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol a gwefannau trydydd parti eraill gan Aelodau Staff (gan gynnwys blogio a mannau personol ar y we)

| Adol. | Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|---|
| 1. | 8 Mehefin 2015 | Cyhoeddiad Cyntaf - Fersiwn 1 | 28 Gorffennaf 2015 |
| 2. | 16 Hydref 2020 | Adolygu ac ail-gymeradwyo | |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog Cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio | Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 16 Hydref 2020 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

## Polisi ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau trydydd parti eraill (gan gynnwys blogiau a mannau personol ar y we) ar gyfer Aelodau Staff

*Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau eraill y Brifysgol, yn enwedig y canlynol, yn ogystal â'r canllawiau yn Atodiad 1:*

- *Polisi Preifatrwydd*
- *Polisi Diogelu Data*
- *Rheoliadau Defnydd Derbyniol*
- *Polisi Diogelwch Gwybodaeth*
- *Polisi ar Ddatgan Buddiannau*
- *Polisi a Gweithdrefnau Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)*
- *Polisi Urddas wrth Weithio ac Astudio*

### 1. Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, p'un ai eu bod yn derbyn cyflog ai peidio, gwirfoddolwyr neu bartïon sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol. Mae'r term "staff" yn cynnwys unigolion sy'n ymgymryd â dyletswyddau swyddogol ar ran y Brifysgol naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol (e.e. myfyrwyr-wardeniaid, arweinwyr cyfoed, interniaid, gwirfoddolwyr ar ddiwrnodau agored, ymgynghorwyr ac ati).

### 2. Rhagarweiniad

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yn rhoi nifer o fanteision yr hoffai staff eu defnyddio efallai; er enghraifft wrth ddefnyddio rhaglenni megis *Facebook, Instagram, Snapchat, WhatsApp* neu *Twitter*. Fodd bynnag pan fo rhywun yn nodi'n glir eu cysylltiad â Phrifysgol Bangor ac/neu yn trafod eu gwaith, ac/neu waith eu cydweithwyr, yna disgwylir iddynt ymddwyn yn briodol ar-lein, ac mewn ffyrdd sy'n gydnaws â gwerthoedd a pholisïau'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn gweithredu'r un safonau ymddygiad mewn perthynas â materion ar-lein ag y byddai yn achos materion all-lein.

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r egwyddorion y disgwylir i staff eu dilyn ar-lein ac mae'n rhoi dehongliadau ar gyfer ffurfiau cyfredol o ryngweithio. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn dechnoleg sy'n symud a datblygu'n gyflym ac mae'n amhosibl ymdrin â'r holl amgylchiadau. Fodd bynnag, dylid dilyn yr egwyddorion a nodir yn y ddogfen hon bob amser.

Nid bwriad y ddogfen hon yw atal unigolion rhag ymwneud â gweithgareddau dilys yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ond, yn hytrach, nodi'r mannau hynny lle gall gwrthdaro ddigwydd.

Os torrir unrhyw ran o'r Polisi, bydd y Brifysgol yn ymdrin o ddifri â hynny, a gellir ei ystyried dan y gweithdrefnau disgyblu perthnasol.

## 3. Egwyddorion

Dylai unrhyw weithgareddau ar-lein sy'n cysylltu staff â'u gwaith yn y Brifysgol gael eu trafod ymlaen llaw gyda'u rheolwr llinell a chael eu cymeradwyaeth lle bo angen.

Unigolion:

- Ni ddylai unigolion ymwneud â gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein eraill a allai ddod ag anfri ar y Brifysgol;
- Ni ddylai unigolion ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd y gellid ei ystyried yn sarhaus, yn wahaniaethol, yn fwlio, yn fygythiol, yn ddifenwol, yn dramgwyddus, yn codi ofn neu'n aflonyddu; sy'n creu atebolrwydd cyfreithiol i'r Brifysgol; sy'n dwyn anfri ar y Brifysgol; neu sy'n torri unrhyw un o bolisïau neu weithdrefnau'r Brifysgol;
- Dylai unigolion fod yn ymwybodol o ystyriaethau diogelu data a phreifatrwydd, wrth gyhoeddi ffotograffau o unigolion ar-lein, heb gydsyniad y person dan sylw.

Dylai staff edrych ar *Reoliadau Defnydd Derbyniol* y Brifysgol i weld pa weithgareddau eraill sy'n cael eu gwahardd.

## 4. Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol sy'n eiddo i'r Brifysgol

Dim ond personau sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny ddylai ychwanegu neu newid cynnwys cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol sy'n eiddo i'r Brifysgol, ac / neu a weithredir ganddi. Rhaid i Bennaeth yr Ysgol / Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Proffesiynol awdurdodi'n ysgrifenedig ymlaen llaw cyn y gellir ychwanegu neu newid cynnwys.

Mae'n rhaid bod o leiaf ddau unigolyn yn yr Ysgol neu'r adran yn gwybod manylion mewngofnodi a chyfrinair cyfrifon y Brifysgol ar y cyfryngau cymdeithasol a rhaid i staff gysylltu â'r Adran Gyfathrebu i roi gwybod iddynt pwy yw'r ddau unigolyn hynny drwy anfon e-bost at cyfryngaucymdeithasol@bangor.ac.uk.

Rhaid i Gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol sy'n eiddo i'r Brifysgol gael eu gweithredu gan ddilyn yr un egwyddorion ag a nodir yn 3. uchod.

Os nad oes gan aelod o staff gyfrifoldeb mwyach am Gyfrif Cyfryngau Cymdeithasol, gan gynnwys os nad ydynt bellach yn cael eu cyflogi gan Brifysgol Bangor, rhaid i'r aelod o staff drefnu ar unwaith i beidio â bod â mynediad at unrhyw un o gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol y Brifysgol.

## 5. Safleoedd hybrid

Dylai fod yn glir i ddefnyddwyr bob amser p'run a yw'r safle y maent yn rhyngweithio ag ef yn safle swyddogol Prifysgol Bangor, a gynhelir gan y Brifysgol i ddibenion y Brifysgol, ynteu a ydyw'n dudalen bersonol a gynhelir gan unigolyn i'w dibenion preifat eu hunain.

Dylai unigolion osgoi creu neu gymeradwyo safleoedd hybrid, sy'n cynnwys elfennau o'r ddau, gan fod hyn yn debygol o achosi dryswch.

## 6. Safleoedd Rhyngrwyd / Rhwydweithio Cymdeithasol

Mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn ffordd ragorol i bobl gadw mewn cysylltiad â chydweithwyr, myfyrwyr a ffrindiau. Fodd bynnag, oherwydd natur agored safleoedd o'r fath mae'n bosibl hefyd i drydydd partïon gasglu ynghyd symiau enfawr o wybodaeth.

Dylai unigolion fod yn ymwybodol o'r wybodaeth y maent yn ei phostio / datgelu ar-lein. Pan maent yn cysylltu eu hunain â'r Brifysgol (trwy roi manylion cyswllt gwaith neu ymuno â rhwydwaith Prifysgol Cymru, er enghraifft) dylent weithredu mewn ffordd nad yw'n dod ag anfri ar y Brifysgol neu a allai achosi i achos cyfreithiol gael ei ddwyn yn erbyn y Brifysgol.

Mewn perthynas â'u cyfrifon eu hunain ar y cyfryngau cymdeithasol, dylai aelodau staff fod yn ymwybodol o bwy sy'n gallu gweld eu proffil, a gweithredu'n briodol. Byddai hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â ffrindiau sydd hefyd yn gydweithwyr, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr neu unigolion sy'n rhyngweithio â'r Brifysgol mewn unrhyw ffordd.

Dylai staff ystyried yr effaith bosibl o roi sylwadau am eu hamgylchedd gwaith ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, ac nid yw defnyddio ymwadiad yn ddigon yn hyn o beth. Dylai staff ei gwneud yn glir ar eu cyfrifon personol mai eu sylwadau nhw eu hunain yw'r sylwadau a wnânt, ac nid rhai Prifysgol Bangor. Ni ddylai sylwadau a/neu negeseuon ar y rhyngrwyd, gan gynnwys cyfrifon rhwydweithio cymdeithasol personol ddatgelu unrhyw wybodaeth sy'n sensitif, yn gyfrinachol neu'n eiddo i'r Brifysgol ei hun a/neu i unrhyw drydydd parti sydd wedi datgelu gwybodaeth i'r Brifysgol. Dylai staff hefyd fod yn ofalus wrth ddefnyddio hashnodau. Mewn achosion o'r fath, gall y Brifysgol, os yw'n briodol, ystyried cymryd camau disgyblu a gofyn am i sylwadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd gwaith gael eu dileu ac, mewn achosion eithafol, gall hefyd ystyried cymryd camau cyfreithiol.

## 7. Gwyddoniaduron mynediad agored ar-lein

Wrth gyflawni eu gwaith gall staff weld camgymeriadau mewn gwyddoniaduron ar-lein. Os yw staff yn golygu gwyddoniaduron ar-lein tra maent yn eu gwaith, gall ffynhonnell y cywiriad gael ei gofnodi fel cyfeiriad IP y Brifysgol Gall y cywiriad edrych felly fel pe bai wedi ei wneud gan y Brifysgol ei hun. Ni ddylai staff felly weithredu mewn ffordd sy'n dod ag anfri ar y Brifysgol ac ni ddylent roi sylwadau sarhaus, difrïol neu anweddus, nac anghywir, neu wneud unrhyw beth a allai achosi i achos cyfreithiol gael ei ddwyn yn erbyn y Brifysgol neu unrhyw wyddoniadur ar-lein.

## 8. Blogio

Dylai staff bob amser gadw at ofynion polisïau Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol wrth ystyried datgelu gwybodaeth.

Mae llawer o flogwyr yn defnyddio eu blogiau personol i drafod eu gwaith a'u hastudiaethau academaidd yn y Brifysgol mewn ffyrdd sydd o fantais i'r Brifysgol. Nid bwriad y Polisi hwn yw cyfyngu ar hyn, cyn belled nad yw gwybodaeth gyfrinachol, neu wybodaeth am unigolion eraill, yn cael ei datgelu. Fodd bynnag, dylai staff hysbysu eu Pennaeth Ysgol/Cyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol os ydynt yn bwriadu trafod eu gwaith Prifysgol a / neu eu hastudiaethau academaidd. Ni ddylai staff weithredu mewn ffordd a allai ddod ag anfri ar y Brifysgol, neu sy'n ddifenwol, neu a allai arwain at achos cyfreithiol yn erbyn y Brifysgol.

Ni fyddai'r polisi hwn fel arfer yn berthnasol i flogiau neu wefannau nad ydynt yn nodi bod y blogiwr yn aelod o staff y Brifysgol nac yn trafod y Brifysgol, ac sy'n ymdrin â materion personol yn unig.

Ni ddylid defnyddio blogiau a gwefannau personol i ymosod ar unigolion na sarhau cydweithwyr. Dylai aelodau staff barchu preifatrwydd a theimladau eraill, a bod yn ymwybodol os byddant yn torri'r gyfraith mewn blog (er enghraifft trwy bostio rhywbeth difenwol) y byddant yn bersonol gyfrifol am hynny.

**a. Blogiau Aelodau Staff**

Dylai staff sydd eisoes â blog neu wefan bersonol, lle nodir mewn unrhyw ffordd eu bod yn gweithio yn y Brifysgol, drafod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl gyda'u Pennaeth Ysgol neu Gyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol, yn unol â Pholisi'r Brifysgol ar Ddatgan Buddiannau. Yr un modd dylai aelodau staff sydd eisiau dechrau blogio, ac sy'n dymuno dweud eu bod yn gweithio i'r Brifysgol, drafod ymlaen llaw unrhyw wrthdaro posibl.

Os yw blog yn nodi'n glir bod yr awdur yn gweithio i'r Brifysgol, dylai gynnwys neges syml a gweladwy megis "fy safbwyntiau personol i yw'r rhain ac nid rhai Prifysgol Bangor."

Ni ddylai blogiau a gwefannau personol ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am Brifysgol Bangor. Gall hyn gynnwys agweddau ar bolisi'r Brifysgol neu fanylion am drafodaethau mewnol yn y Brifysgol. Os oes ganddynt amheuon ynghylch beth a all fod yn gyfrinachol, dylai aelodau staff ymgynghori â'u rheolwr atebol.

Os yw aelod staff o'r farn bod rhywbeth ar eu blog neu wefan a allai arwain at bryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau ac, yn arbennig, bryderon ynghylch didueddrwydd neu gyfrinachedd, mae'n rhaid iddynt drafod hynny gyda'u rheolwr llinell.

Caniateir i aelodau staff ddiweddaru eu blog personol a'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio cyfrifiaduron y Brifysgol yn amodol ar Adran 4.1 o *Reoliadau Defnydd Derbyniol* y Brifysgol.

**b) Polisi i Reolwyr ynglŷn â Blogio a'r Cyfryngau Cymdeithasol**

Dan y Polisi hwn rheolwyr fydd yn penderfynu beth sy'n briodol. Ni ddylai rheolwyr roi unrhyw gyfyngiadau diangen a dylent sicrhau bod unrhyw gyfarwyddiadau arbennig ynglŷn â blogio neu ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn rhesymol ac wedi eu hegluro'n glir wrth aelodau staff.

Dylai rheolwyr gadw mewn cof bryderon ynghylch didueddrwydd, cyfrinachedd, diogelu data, gwrthdaro buddiannau neu sensitifrwydd masnachol. Mewn rhai achosion gall unigolion fod yn ymdrin â materion sydd mor sensitif nes efallai y bydd yn rhaid pennu rheolau ynghylch beth y gallant a beth na allant siarad amdano ar eu blog personol. Gellir ceisio arweiniad pellach i ddechrau gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, a all ofyn am gyngor, o ffynonellau mewnol a / neu allanol priodol.

## 9. Cydymffurfio a Monitro

Mae pob aelod o'r Brifysgol (yn staff a myfyrwyr fel ei gilydd) yn uniongyrchol gyfrifol ac atebol am yr wybodaeth y maent yn ymdrin â hi. Mae'r staff a'r myfyrwyr wedi'u rhwymo i lynu wrth *Reoliadau Defnydd Derbyniol* y Brifysgol.

Dylai holl gyfrifon y Brifysgol gynnwys pob gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dylid cyhoeddi holl weithgarwch y cyfryngau cymdeithasol yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor a chadw at yr egwyddor a nodir isod:

Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Gellir cyflawni hyn ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol trwy naill ai gael cyfrif cwbl ddwyieithog neu gyfrifon neu lwyfannau penodol i bob iaith. Pa bynnag opsiwn a ddewisir, mae'n rhaid i'r negeseuon gael eu cyflwyno yn y ddwy iaith yr un pryd. Nid yw'n dderbyniol rhoi neges mewn un iaith yn unig. Wrth ymateb i negeseuon ac ymholiadau, naill ai'n gyhoeddus neu'n breifat, mae'n well gwneud hynny yn yr iaith a ddewisir gan y defnyddiwr.

Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio yn y lle cyntaf am unrhyw gamddefnydd neu unrhyw ddefnydd a allai ddwyn anfri ar y Brifysgol, a gellir ystyried camau disgyblu mewn ymgynghoriad â’r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

## 10. Adolygu

Adolygir y polisi bob tair blynedd, neu ar gyfnodau cynharach yng ngoleuni unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, technoleg neu weithrediad y polisi presennol.

**Atodiad 1**

**Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol**

**Rhagarweiniad**

Datblygwyd y canllawiau hyn yn dilyn ymgynghori â nifer o gydweithwyr ar lefel Coleg, lefel Ysgol a lefel adrannol. Cafwyd barn arbenigol hefyd gan gwmni sy'n arbenigo yn y cyfryngau cymdeithasol.

Mae tri phwrpas i'r canllawiau hyn:

- Sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud y gorau o fuddion posibl cyfryngau cymdeithasol i bawb sy'n gysylltiedig
- Annog arferion da
- Lleihau unrhyw effaith andwyol a diogelu'r Brifysgol, y staff a myfyrwyr.

Mae twf y cyfryngau cymdeithasol, yn arbennig safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, wedi cynyddu'r cyfle i gyfathrebu gydag amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd.

Mae’r ddogfen hon yn ymdrin â:

- Beth yw’r cyfryngau cymdeithasol?
- Sut mae Prifysgol Bangor yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol?
- Dechrau arni
- Nodau ac Amcanion
- Egwyddorion Cynnwys
- Sefydlu cyfrif - personol neu swyddogol
- Arferion Da
- Diogelwch
- Brandio
- Hyfforddiant

## 1. Beth yw’r Cyfryngau Cymdeithasol?

Mae’r cyfryngau cymdeithasol wedi newid y ffordd rydym yn cyfathrebu - fel sefydliad ac fel unigolion. Gydag offer megis YouTube, Facebook, a Twitter, gall unrhyw un gyda chysylltiad â'r rhyngrwyd greu presenoldeb deinamig ar y we, ei ddiweddaru o le bynnag y maent, pryd bynnag maent eisiau gwneud hynny, a rhannu ei gynnwys ar unwaith gyda phobl o amgylch y byd.

Mae’r cyfryngau cymdeithasol yn newid drwy'r amser. O ganlyniad, bydd y canllawiau yn parhau i ddatblygu. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau, anfonwch e-bost at cyfryngaucymdeithasol@bangor.ac.uk

## 2. Sut mae Prifysgol Bangor yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol?

Fel sefydliad, mae Prifysgol Bangor wedi mabwysiadu'r cyfryngau cymdeithasol yn frwdfrydig o gyfnod cynnar. Mae'r offer hyn yn galluogi'r brifysgol i rannu beth sy'n digwydd yn y Brifysgol gyda'r byd, ond yn fwyaf pwysig yn ein galluogi i glywed yn syth ac yn uniongyrchol gan fyfyrwyr, staff, rhieni, cefnogwyr a ffrindiau am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Y "sgwrs" hon sy'n gwneud y cyfryngau cymdeithasol mor wahanol i ddulliau traddodiadol o gyfathrebu.

Y prif lwyfannau a ddefnyddir gan y Brifysgol ar hyn o bryd yw Facebook, Twitter, LinkedIn ac YouTube, ac mae nifer o Adrannau ac Ysgolion ar draws y Brifysgol eisoes yn llwyddo i ddefnyddio'r offer hyn i gyfathrebu gyda chynulleidfaoedd allweddol.

Mae cyfle gwych hefyd i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i addysgu a dysgu, a bydd polisi pellach am hyn ar gael maes o law.

Dyma brif bresenoldeb swyddogol Prifysgol Bangor ar gyfryngau cymdeithasol:

- YouTube: www.youtube.co.uk/bangortv
- Facebook: www.facebook.com/BangorUniversity a www.facebook.com/PrifysgolBangor
- Twitter: www.twitter.com/BangorUni
- www.twitter.com/PrifysgolBangor
- http://www.linkedin.com/edu/bangor-university-20409
- Instagram: https://www.instagram.com/prifysgolbangor/?hl=en and https://www.instagram.com/bangor_university/?hl=en

### Dechrau Arni

### a) Cyfrifon Personol

Rydych yn amlwg yn rhydd i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer eich gweithgarwch personol, ond os ydych yn gwneud hyn dyma rai pethau i'w cofio:

- Cofiwch hyd yn oed os ydych yn gweithredu'n bersonol, rydych yn cael eich gweld gan eich ffrindiau ac unrhyw un arall sy'n gweld yr hyn rydych yn ei ysgrifennu, fel cynrychiolydd Prifysgol Bangor.
- Dylech ei wneud yn glir bod y safbwyntiau yr ydych yn eu mynegi yn rhai personol, ac nid rhai Prifysgol Bangor.
- Os ydych yn gweithredu'n anghyfreithlon e.e. trwy gyhoeddi unrhyw ddeunydd enllibus neu'n torri hawlfraint byddwch yn bersonol gyfrifol ac nid y Brifysgol fydd yn gyfrifol.
- Mae deunydd a roddir gan unigolion ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn aml yn cael ei weld gan bobl tu allan i'ch cylch arferol o ffrindiau. Wrth ystyried beth i'w roi ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, mae'n well gweithredu yn ôl y rhagdybiaeth y caiff eich sylwadau eu gweld gan bawb.

## b) Cyfrifon swyddogol y Brifysgol

**Dylech gael cymeradwyaeth pennaeth eich adran neu reolwr.**
Os ydych eisiau creu tudalen ar y cyfryngau cymdeithasol neu broffil i'ch adran, dylech gael sêl bendith eich uwch reolwr. Gofynnir hefyd i chi geisio cyngor yr Adran Marchnata a Chysylltiadau Corfforaethol (cyfryngaucymdeithasol@bangor.ac.uk)

**Meddyliwch am ymarferoldeb**
Pwy sy'n mynd i wneud hyn? Faint o amser fydd yn ei gymryd? Dylai fod mwy nag un aelod staff yn gysylltiedig (er mwyn bod rhywun wrth gefn pan fydd yr unigolyn sy'n arwain ar y gwaith i ffwrdd o'r gwaith) - pwy fydd yr ail aelod staff â chyfrifoldeb? Oes lle i hyn yn eich amserlen? Ydych chi'n siŵr y bydd hynny'n gynaliadwy?

**Manylion Mewngofnodi**
Rhaid i fanylion mewngofnodi a chyfrinair cyfrifon y Brifysgol ar y cyfryngau cymdeithasol fod yn hysbys i ddau berson yn yr adran o leiaf ac rydym yn eich cynghori i gysylltu â'r Adran Gyfathrebu i roi gwybod iddynt pwy yw'r ddau hynny trwy anfon e-bost at cyfryngaucymdeithasol@bangor.ac.uk. Bydd hyn yn sicrhau y gall rhywun arall wneud y gwaith os byddwch yn symud i swydd arall neu i ffwrdd yn sâl.

**Diffiniwch yr hyn yr ydych am ei gyflawni.**
Cyn i chi neidio i mewn i'r cyfryngau cymdeithasol ar ran eich adran, project neu swyddfa, treuliwch ychydig amser yn ystyried beth rydych eisiau ei gyflawni. Bydd deall hyn yn eich helpu i ddewis yr offer priodol, creu cynnwys perthnasol a deall beth yw'r ffordd orau o gyrraedd eich cynulleidfa darged.

**Dynodwch gydlynydd.**
Penderfynwch pwy fydd y prif unigolyn/unigolion fydd yn gyfrifol am ddiweddaru a monitro eich safle. Gwnewch yn siŵr bod ganddynt amser i wirio'r safle o leiaf ddwywaith y dydd. Caiff safleoedd cyfryngau cymdeithasol llwyddiannus eu diweddaru'n aml, gan alluogi cysylltiad rhwydd gyda'r rhai sy'n ymweld ac addasu mewn ymateb i ddigwyddiadau amserol a phroblemau. Dylech bennu a hyfforddi rhywun wrth gefn i'r unigolyn hwn. Byddem yn eich cynghori i beidio â defnyddio staff dros dro neu rai ar interniaeth i gyflawni'r swyddogaethau hyn.

**Lluniwch strategaeth.**
Diffiniwch beth ydych yn gobeithio ei gyflawni, pwy yr hoffech ennyn eu diddordeb, a pha gynnwys yr ydych eisiau ei rannu'n gyntaf, ac yna ewch ati i edrych ar wahanol offer y cyfryngau cymdeithasol.

**Gwrandewch.**
Mae gan bob llwyfan ar y cyfryngau cymdeithasol eu safonau, eu harddull a'u disgwyliadau eu hunain. Trwy fod yn ddefnyddiwr y cyfryngau cymdeithasol ymhell cyn i chi fod yn gynhyrchydd, byddwch yn dysgu sut mae'r cymunedau hyn yn gweithio, pa gynnwys sydd o fwyaf o ddiddordeb, beth mae sefydliadau tebyg eraill yn eu trafod ac ati.

**Dewiswch eich teclyn.**
Ar ôl gwrando, efallai y gwelwch fod y brawddegau byr 140 o nodau ar Twitter yn addas iawn i'r hyn rydych eisiau ei gyflawni. Neu efallai bod gennych luniau, fideos a chymuned fawr y gallwch eu rhannu'n well drwy dudalen Facebook. Peidiwch â cheisio gwneud y cyfan ar unwaith - dewiswch offer sy'n cyflawni eich nodau orau a chanolbwyntio ar adeiladu presenoldeb cryf.

**Tôn**
Defnyddiwch lais anffurfiol, dynol Prifysgol Bangor i hyrwyddo a chysylltu gyda chymunedau ac unigolion.

**Addasiad**
Mae pob un o'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnig dulliau hawdd o dracio, felly gallwch weld pa ddeunydd sydd wedi eu gweld/eu rhannu fwyaf aml a pha rai sy'n cynhyrchu sylwadau. Dylech wedyn addasu eich negeseuon yn unol â hynny.

**Dywedwch wrthym am eich llwyddiant**
Rhowch wybod i'r Tîm Cyfathrebu beth rydych yn ei wneud fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i helpu i ehangu eich cyrhaeddiad drwy rannu datblygiadau a gwybodaeth. Anfonwch e-bost at cyfryngaucymdeithasol@bangor.ac.uk neu ffoniwch 8293.

## 3. Nodau ac Amcanion

Trwy gael presenoldeb llwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol gallwn:

- Gyfathrebu â phobl ac ennyn eu diddordeb
- Monitro a gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud
- Cynhyrchu traffig i wefan Prifysgol Bangor (lle bo'n addas gallwch gynnwys cyswllt i wefan swyddogol y Brifysgol).

## 4. Egwyddorion Cynnwys

Dylai'r cynnwys ar bob un o'n tudalennau rhwydweithio cymdeithasol swyddogol fod yn:

- **Amrywiol** - gall y cynnwys gynnwys newyddion, digwyddiadau, fideo, cysylltiadau â newyddion diweddaraf am ymgyrchoedd a gwefannau.
- **Aml** - dylai'r cynnwys gael ei ddiweddaru/uwchlwytho o leiaf bob yn ail ddiwrnod ar Facebook a Twitter ac o leiaf bob wythnos ar safleoedd eraill. Dylid monitro pob tudalen o leiaf ddwywaith y dydd.
- **Credadwy** - gall y cynnwys fod yn hwyliog ond mae'n rhaid iddo hefyd bod yn berthnasol i'n hamcanion o ran codi proffil a gwella enw da Prifysgol Bangor.
- **Cliciadwy** - lle bo'n bosibl dylai fod cyswllt i gynnwys perthnasol ar ein gwe-dudalennau swyddogol.

## 5. Arferion Da

- Dylai staff ystyried hawliau eiddo deallusol, hawlfraint a pherchenogaeth data wrth ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol.
- Lle bo staff yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion personol yn y gwaith, dylid gwneud hynny'n unol â chanllawiau cyfredol technoleg gwybodaeth.
- Byddwch yn ofalus wrth ryngweithio ac ymateb i ddeunydd dadleuol posibl ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol.
- Mae holl bolisïau cyfredol y Brifysgol sy’n ymwneud â staff yn berthnasol hefyd i ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol (polisïau Adnoddau Dynol, Polisi Defnydd Derbyniol ac ati)
- Cynghorir chi i gael barn rhywun arall cyn rhoi deunydd ar y safleoedd. Gall cael rhywun arall i wirio eich rhwystro rhag dweud rhywbeth annoeth neu gysylltu â rhywbeth annoeth a allai niweidio eich enw da chi neu enw da'r Brifysgol.
- Monitro cyfathrebu ar-lein am eich coleg/adran yn rheolaidd.
- Byddwch yn dryloyw; Eglurwch eich bod yn rhoi negeseuon ar Twitter/Facebook ac ati yn eich swyddogaeth fel aelod staff ym Mhrifysgol Bangor.
- Byddwch yn weithredol. Os nad oes gennych yr amser na'r adnoddau i wirio'r safleoedd hyn am o leiaf ychydig o funudau bob dydd, a rhoi cynnwys ffres sawl gwaith yr wythnos, dylech ailystyried a oes gennych yr amser i fuddsoddi yn y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd.
- Cofiwch, mae popeth a wnewch ar-lein yn para am byth. Peidiwch â rhoi unrhyw ddeunydd ar-lein na fyddech yn gyfforddus i'w weld ar dudalen flaen papur newydd.
- Ewch ati i dderbyn a monitro sylwadau. Ni fyddai safle ar y cyfryngau cymdeithasol lle na cheir sylwadau yn gymdeithasol iawn. Byddwch yn barod i dderbyn ac ymateb i sylwadau.
- Rhaid deall na fydd pob sylw yn gadarnhaol, a rhaid ymateb i sylwadau negyddol yn broffesiynol a thrwy roi unrhyw wybodaeth ychwanegol a all helpu i ddatrys y broblem.
- Rhaid gwahanu materion personol oddi wrth faterion proffesiynol. Gall cadw cydbwysedd rhwng eich presenoldeb proffesiynol a phersonol ar y cyfryngau cymdeithasol fod yn anodd, yn arbennig os ydych yn ddefnyddiwr brwd yn y ddau faes.

## 6. Ystyriaethau diogelwch ac ystyriaethau cyfreithiol

Mae diogelwch technegol safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn risg, ynghyd â'r posibilrwydd y gall cynnwys gael ei hacio a'i fandaleiddio. I osgoi hyn, ceisiwch gadw at y canllawiau canlynol:

- Dylid newid cyfrineiriau bob chwe mis
- Peidiwch byth â gofyn i'r cyfrifiadur gofio cyfrineiriau at y tro nesaf neu efallai y bydd pobl eraill sy'n defnyddio eich cyfrifiadur yn gallu cael mynediad i'r cyfrifon.
- Peidiwch â rhoi'r wybodaeth mewngofnodi i unrhyw un y tu allan i'ch adran neu goleg oni bai eu bod wedi cael eu henwebu gan Bennaeth y Coleg/Adran.

- Mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn eich galluogi i rannu ffotograffau, fideos a sylwadau gyda miloedd o ddefnyddwyr eraill. Ond efallai nad yw hi'n briodol rhannu gwaith neu wybodaeth sy'n gysylltiedig ag astudiaethau yn y ffordd hon. Dylai staff gadw mewn cof hefyd y gall fod yna faterion yn ymwneud â diogelu data a hawlfraint yn gysylltiedig ag uwchlwytho ffotograffau, fideos neu sylwadau i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth dylai unigolion ddarllen *Polisi Diogelu Data*'r Brifysgol[1].
- Efallai y bydd disgwyl (o du rhai a oedd yn bresennol ac efallai rai nad oedd yno) na fydd ffotograffau a dynnwyd mewn achlysur preifat yn y Brifysgol yn ymddangos yn gyhoeddus ar y rhyngrwyd. Dylai staff fod yn ystyriol o'u ffrindiau a/neu gydweithwyr mewn amgylchiadau o'r fath ac ni ddylent roi gwybodaeth ar y safleoedd pan ofynnwyd iddynt beidio â gwneud hynny. Dylent hefyd dynnu gwybodaeth am unigolyn arall oddi yno os bydd yr unigolyn hwnnw yn gofyn iddynt wneud hynny.
- Rhaid ystyried materion diogelu cyn defnyddio delweddau sy'n cynnwys pobl dan 18 oed. Ni ddylid defnyddio'r rhain ar y cyfryngau cymdeithasol heb ganiatâd ysgrifenedig penodol gan riant, gwarcheidwad neu'r ysgol.
- Gall sylwadau sarhaus neu ddifrïol a wneir am gydweithwyr eraill ar y rhyngrwyd fod yn achos o seibr-fwlio a gall arwain at achos disgyblu.

## 7. <u>Polisi Iaith</u>

Dylai holl gyfrifon y Brifysgol gynnwys pob gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dylid cyhoeddi holl weithgarwch y cyfryngau cymdeithasol yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor a chadw at yr egwyddorion a nodir isod:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Gellir cyflawni hyn ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol trwy naill ai gael cyfrif cwbl ddwyieithog neu gyfrifon penodol i bob iaith. Pa bynnag opsiwn a ddewisir, mae'n rhaid i'r negeseuon gael eu cyflwyno yn y ddwy iaith yr un pryd. Nid yw'n dderbyniol rhoi neges mewn un iaith yn unig.

Wrth ymateb i negeseuon ac ymholiadau, naill ai'n gyhoeddus neu'n breifat, mae'n well gwneud hynny yn yr iaith a ddewisir gan y defnyddiwr.

## 8. <u>Brandio</u>

### Trosolwg

Er mwyn cynnal sawl presenoldeb cymdeithasol heb unrhyw ddryswch ynglŷn â'r hyn sy'n 'swyddogol' a'r hyn sydd ddim yn swyddogol, mae'r canllawiau canlynol wedi'u datblygu i'w defnyddio ar hyd a lled y Brifysgol.

[1] Ar gael o dudalennau gwe'r Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio: https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/dataprotection/documents/Data-Protection-Policy-approved-v7-June-2020-CY.pdf

Dylech ystyried bod eich afatar, eich proffil a'ch lluniau cefndir yn estyniadau o'ch presenoldeb ar y we. Os nad oes gennych estheteg weledol i'ch presenoldeb ar y we, dylech ystyried y cyfryngau cymdeithasol fel cyfle i sicrhau edrychiad a naws cyson y gellir ei adnabod. Mae'r canllawiau diweddaraf ynglŷn â'r brand i'w gweld yma. Eich cyfrifon chi ar y cyfryngau cymdeithasol yw'r rhain, felly dylech ystyried pa "bersonoliaeth" gymdeithasol y mae arnoch eisiau i'ch estheteg ei chyfleu.

Dyma'r dull gweithredu a argymhellir:

**Cyflwyniad Graffigol**

Pan fyddwch yn ychwanegu graffeg ar ffurf afatarau neu luniau cefndir i'r safleoedd hyn dylech anelu at gael llun trawiadol y gellir ei adnabod fel eich cyflwyniad graffigol. Ystyriwch ddefnyddio portread neu lun o'ch lleoliad.

**Canllawiau Twitter**

Afatar

Defnyddiwch lun sydd wedi ei leihau i 70 picsel x 70 picsel.

Cefndir

Defnyddiwch lun gweadeddol sydd wedi ei leihau i 1600 picsel x 1200 picsel. Dylid osgoi cefndiroedd prysur, ailadroddus.

Enw

Byddwch mor fanwl a disgrifiadol â phosibl o fewn y terfyn 20 nod. Defnyddiwch enw eich adran, ysgol neu sefydliad. Peidiwch â defnyddio "Prifysgol Bangor" ar ei ben ei hun.

Lleoliad

Bangor, Gwynedd, Cymru neu Wrecsam?

Bywgraffiad

Byddwch mor fanwl a disgrifiadol â phosibl o fewn y terfyn 160 nod.

Gwefan

Cyswllt i'ch tudalen ar bangor.ac.uk

URL Twitter

Yn cyfateb i enw eich cyfrif.

Cyffredinol

- Defnyddiwch hashnodau (#) yn ddoeth ac yn ddelfrydol dim mwy na dau i bob neges
- Dylid osgoi acronymau oni bai eu bod yn gyfarwydd iawn (e.e. NHS)
- Defnyddiwch wasanaeth byrhau cysylltiadau (e.e. bit.ly neu goo.gl)

- Ceisiwch beidio â defnyddio pob un o'r 140 nod gan y bydd hynny'n galluogi pobl eraill i ail-drydar eich neges gyda'u sylwadau eu hunain
- Dylech osgoi defnyddio priflythrennau oni bai eich bod eisiau rhoi'r argraff eich bod yn GWEIDDI

**Canllawiau Facebook**

Llun Proffil

Defnyddiwch lun sydd wedi ei leihau i 200 picsel o ran lled (does dim cyfyngiadau o ran uchder). Dylech osgoi defnyddio geiriau neu liwiau solet gan y byddant yn diraddio wrth gael eu cyfleu gan Facebook.

Personoli yr URL

Ni ellir newid hyn byth, felly dewiswch yn ofalus. Ystyriwch sefydlu arferiad enwi cyson, er enghraifft: facebook.com/BangorUniversity neu facebook.com/Bangor-University-Alumni-Prifysgol-Bangor

Enw'r dudalen

Dim terfyn o ran nifer y nodau

Math o Dudalen

O dan "Tudalen Swyddogol," dewiswch "Busnes Lleol" ac yna "Addysg."

Llun Blaenddalen y Llinell Amser

Dyma'r peth cyntaf fydd ymwelwyr i'ch llinell amser yn ei weld, dylai llun y flaenddalen fod yn ddiddorol, yn hawdd ei ddarllen ac yn 851 x 315 picsel o ran maint. Dewiswch lun wedi ei fformatio'n flaenorol o'n lluniau llinell amser ar thema Prifysgol Bangor.

**Enghreifftiau**

Dyma rai enghreifftiau o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi'u brandio'n dda ym Mhrifysgol Bangor:

| | | |
|---|---|---|
| Bangor University | Facebook | Twitter |
| Prifysgol Bangor | Facebook | Twitter |
| Bangor University Press Office | Twitter | |
| Swyddfa'r Wasg Prifysgol Bangor | Twitter | |

Mae croeso i chi anfon e-bost at cyfryngaucymdeithasol@bangor.ac.uk neu ffonio 8293 i gael rhagor o gyngor.

## 9. Hyfforddiant

Gall Tîm Cyfathrebu'r Brifysgol gynnig rhywfaint o gyngor a sesiynau polisi i grwpiau sydd eisiau sefydlu neu gyfrannu at weithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol. Cysylltwch â cyfryngaucymdeithasol@bangor.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth.

*Manylion Cyswllt*

E-bost: cyfryngaucymdeithasol@bangor.ac.uk